


CYTUNDEB PARTNERIAETH:

GWEITHIO GYDA’N GILYDD I ADEILADU GWYTNWCH TRWY GYMRYD YMAGWEDD IECHYD CYHOEDDUS TUAG AT BLISMONA A CHYFIAWNDER TROSEDDOL YNG NGHYMRU



**Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnewch trwy gymryd ymagwedd lechyd
Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.**

CONFIDENTIAL

MAE'R CYTUNDEB PARTNERIAETH HWN

yn cael ei greu ar yn 2018

RHWNG

1. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Dyfed Powys
2. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Gwent
3. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru
4. Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl De Cymru
5. Cyfarwyddwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru
6. Prif Weithredwr Cymru y Cwmni Adsefydlu Cymunedol
7. Cyfarwyddwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (Cymru)
8. Cyfarwyddwr (Cymru) y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid
9. Cadeirydd a Phrif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytwnch trwy gymryd ymagwedd lechyd
Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.**

CONFIDENTIAL

CYNNWYS

1. **DATGANIAD GWELEDIGAETH**..... Error! Bookmark not defined.
2. **CEFNOGAETH I'R CYTUNDEB HWN**..... Error! Bookmark not defined.
3. **RHEOLAETH, GORUCHWYLIAETH A'R BROSES ADOLYGU:**..... **7**
4. **PWRPAS**..... Error! Bookmark not defined.
5. **SUT BYDDWN NI'N CYDWEITHIO**..... Error! Bookmark not defined.
6. **MEYSYDD FFOCWS**..... Error! Bookmark not defined.
7. **RÔL ARWEINIOL**..... Error! Bookmark not defined.

CONFIDENTIAL

**Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytwnch trwy gymryd ymagwedd lechyd
Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.**

CONFIDENTIAL

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd Iechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

1. DATGANIAD GWELEDIGAETH

Bydd partneriaid Iechyd Cyhoeddus Cymru, Plismona a Chyfiawnder Troseddol ledled Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i ysgogi gweithredu a sicrhau newid ar draws y system i wella ansawdd bywyd, lles a diogelwch pobl sy'n byw yng Nghymru.

2. CEFNOGAETH I'R CYTUNDEB HWN

Mae Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn cefnogi egwyddorion y Cytundeb hwn ac uchelgais partneriaid i gydweithio i sicrhau newid ar draws y system a darparu gwasanaethau integredig er mwyn gwasanaethu teuluoedd a chymunedau ledled Cymru yn well.

2.1 Partneriaid:

- Y pedwar Comisiynydd Heddlu a Throseddau a phedwar Prif Gwnstabl De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed-Powys a Gwent
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru
- Prif Weithredwr Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Cyfarwyddwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Cymru
- Cyfarwyddwr Cymru y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid
- Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru

3. RHEOLAETH, GORUCHWYLIAETH A'R BROSES ADOLYGU:

3.1 Bydd Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan (AWCJB) yn goruchwyllo ac yn cynnig cyfeiriad ar gyfer adeiladu gwytnwch trwy ymagwedd Iechyd Cyhoeddus tuag at blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru.

3.2 Mae AWCJB yn cynnwys llofnodwyr y cytundeb hwn ynghyd â chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref ac eraill sydd â diddordeb uniongyrchol yn y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru, gan gynnwys cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol.

3.3 Cynhelir Adolygiad o'r Cytundeb Partneriaeth ddwywaith y flwyddyn gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan. Gellir galw cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

- 3.4 Cynhelir adolygiad manylach o weithgareddau rhaglenni unwaith y flwyddyn trwy gyfarfod estynedig gydag arweinwyr pob maes ffrwd gwaith a'i ddefnyddio fel cyfle i drosglwyddo gwybodaeth.
- 3.5 Caiff cofnodion a champau gweithredu eu cofnodi ar gyfer pob cyfarfod.
- 3.6 Bydd y bartneriaeth yn darparu'r adroddiadau i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, dan arweiniad y rôl ar y cyd yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, a bydd yn cynnwys: Cynnydd y cyfnod ers y cyfarfod neu'r cyfnodau diwethaf a bennwyd gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan; Materion sy'n cael eu rheoli; Materion sydd angen cyfeiriad a chynnydd wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod nesaf.
- 3.7 Bydd aelodau Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn gyfrifol am rannu adroddiadau gyda'u sefydliadau priodol.
- 3.8 Bydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda swyddogaeth weinyddol AWCJB i weinyddu'r elfen o'r Agenda sy'n ymwneud â'r Cytundeb Partneriaeth.

4. PWRPAS

- 4.1 Mae nifer o'r materion sy'n wynebu plismona, sefydliadau cyfiawnder troseddol ac iechyd wedi'u gwreiddio mewn anghydraddoldeb, bregusrwydd ac adfyd, ac i ddefnyddio cyfatebiaeth sy'n seiliedig ar iechyd, mae'r tri mater hyn yn heintus. O ganlyniad, mae ein gwasanaethau yn aml yn canolbwyntio ar **drin symptomau** yn hytrach nag atal yr achosion, sydd yn gallu bod yn anwelladwy erbyn iddynt gyrraedd gweithwyr proffesiynol rheng flaen. Mae ail gyflwyno symptomau fel hyn wedi creu **set gyffredin o heriau** sy'n gosod galw anghymesur o uchel ar gyllidebau ac adnoddau plismona, cyfiawnder troseddol ac iechyd.
- 4.2 Mae'r cyd-destun polisi a deddfwriaeth yng Nghymru yn cefnogi dulliau newydd o fynd i'r afael â'r materion hyn sydd, yn hanesyddol, yn ymddangos yn anodd eu trin.
- 4.3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) ill dau yn nodi gweledigaeth drawsnewidiol i wella lles pobl yng Nghymru trwy flaenoriaethu **cydweithredu, integreiddio, cynllunio hirdymor ac atal**.

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

- 4.4 Mae atal a lleddfu effaith Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) trwy gymryd **ymagwedd macro** tuag at ddeall bregusrwydd unigolion yn flaenoriaeth glir y dylid canolbwyntio gweithredu ar y cyd â hi.
- 4.5 Yn fyd-eang, ceir tystiolaeth gynyddol sy'n dangos y gall digwyddiadau trawmatig a brofwyd yn ystod plentyndod gael effeithiau negyddol hirdymor ar ganlyniadau iechyd a chymdeithasol, gan gynnwys cymryd rhan mewn trais rhyngbersonol yn ddiweddarach mewn bywyd (fel troseddwr a/neu ddiodefwr) a risg sylweddol uwch o garcharu. Mae effaith ACE wedi bod yn hysbys i weithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol ac iechyd, athrawon a gweithwyr ieuenctid ers blynyddoedd lawer, ond heb gynllun i fynd i'r afael â'r materion mewn ffordd gydlynol, nid yw'r manteision o fynd i'r afael â hwy ar y cyd wedi eu gwireddu.
- 4.6 Roedd y Weledigaeth Plismona 2025, a gyhoeddwyd ar ddiwedd 2016, yn disgrifio **tirwedd blismona amrywiol a chymhleth** sy'n galw am ddull mwy soffistigedig o fynd i'r afael â heriau newydd ac esblygol. P'un ai yw'n gamfanteisio'n rhywiol ar blant, yn drais ac yn gam-drin domestig, yn seiberdroseddu neu'n fygythiadau newydd o droseddau difrifol a chyfundrefnol, masnachu mewn pobl neu derfysgaeth, mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod gweithio ar y cyd ar draws y system yn allweddol i atal troseddu ac amddiffyn pobl fregus yn yr amgylchedd plismona modern.
- 4.7 Mae'r system iechyd cyhoeddus hefyd yn ceisio cydweithio pellach â gwasanaethau cyhoeddus eraill i fynd i'r afael â phenderfynyddion iechyd ehangach - y ffactorau a all osod pobl ar y llwybr sy'n arwain at afiechyd a marwolaeth gynamserol.
- 4.8 Mae'r cytundeb hwn yn cydnabod bod cysylltiad agos rhwng **Plismona a Iechyd Cyhoeddus**. Yr Heddlu yw'r ymatebwyr cyntaf i ystod o sefyllfaoedd cymhleth sy'n cynnwys materion yn ymwneud ag iechyd troseddol, sifil neu gyhoeddus. Rydym yn gwybod bod llawer o'r hyn y mae'r heddlu'n ymateb iddo yn cael ei gyfeirio at gadw iechyd a lles, felly mae cymryd **ymagwedd iechyd cyhoeddus** yn darparu fframwaith defnyddiol i ddeall y ffactorau risg a'r blociau adeiladu i fynd i'r afael â bregusrwydd a chynyddu gwytnwch ar draws **cwrs bywyd**.
- 4.9 Mae ymagwedd lechyd Cyhoeddus yn hyrwyddo'r defnydd o ymchwil a thystiolaeth gadarn i lywio a phrofi atebion, gan dynnu ar safbwyntiau amlasiantaethol ac asedau partneriaid ehangach i gyfrannu'n ddefnyddiol tuag at flaenoriaethau a rennir.

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

- 4.10 Mae cydweithredu rhwng lechyd Cyhoeddus a Phlismaona wedi datblygu yng Nghymru dros y 18 mis diwethaf, o ganlyniad i'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) rhwng y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabl De Cymru gyda lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gwreiddiol yn nodi manteision cydweithio er mwyn mynd i'r afael â llawer o'r materion sy'n wynebu plismaona, cyfiawnder troseddol ac iechyd cyhoeddus ac arweiniodd at waith sylweddol ar y cyd gan gynnwys y peilot ym Maesteg o waith ACE a gychwynnwyd gan yr heddlu.
- 4.11 Mae'r Cytundeb Partneriaeth hwn yn disodli'r Cytundeb a wnaed rhwng lechyd Cyhoeddus Cymru a Heddlu De Cymru ac yn ceisio sicrhau newid ar draws systemau a darparu gwasanaethau integredig ledled Cymru drwy ysgogi gweithredu ac ymateb cydgysylltiedig i faterion sy'n flaenoriaeth ar draws plismaona, cyfiawnder troseddol a phartneriaid.
- 4.12 Bydd y Cytundeb Partneriaeth yn helpu partneriaid i adnabod a mynd i'r afael â newidiadau ar draws y system yn well, a hynny yng nghyswllt polisi ac wrth ddylunio, comisiynu a darparu gwasanaethau i wella lles a diogelwch teuluoedd a chymunedau ledled Cymru.
- 4.13 Mae'r Cytundeb Partneriaeth hwn yn nodi ymrwymiad partneriaid lechyd Cyhoeddus Cymru, Plismaona a Chyfiawnder Troseddol i ddatblygu rhaglen waith ar y cyd gyda'r nod o feithrin cydnheredd sefydliadol a chymunedol trwy ddull iechyd cyhoeddus, deall ac **adnabod achosion gwreiddiol** materion cyffredin sy'n torri ar draws plismaona, iechyd a chyfiawnder troseddol a dylunio, profi a gweithredu atebion cynaliadwy hirdymor.
- 4.14 Wrth fabwysiadu egwyddorion y Cytundeb Partneriaeth hwn, rydym yn gobeithio gwella bywydau a chyfleoedd bywyd y cymunedau yng Nghymru, yn unol â deddfwriaeth Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- 4.15 Bydd y Cytundeb hwn yn ein helpu i leihau'r galw ar wasanaethau plismaona, cyfiawnder troseddol ac iechyd, a caiff ei wireddu trwy ganolbwyntio ar strategaethau ymyrraeth gynnar ac atal sy'n lleihau datblygiad problemau (e.e. ail-arestio/ailgyflwyno bregusrwydd dro ar ôl tro).
- 4.16 Byddwn yn adnabod ac yn mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth gwasanaeth, gan osgoi dyblygu adnoddau ac ynni ar draws gwasanaethau wrth reoli materion sy'n codi dro ar ôl tro, a darparu gwasanaeth cydgysylltiedig sy'n gallu ymateb yn well i anghenion

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd iechyd cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

unigolion a chymunedau lleol yng Nghymru, yn enwedig y rhai mwyaf bregus.

- 4.17 Bydd y gwaith a ddatblygir trwy'r bartneriaeth hon yn gysylltiedig â threfniadau partneriaeth leol, yn enwedig Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Partneriaethau/Byrddau Diogelwch Cymunedol, Partneriaethau Troseddau Difrifol a Threfnedig Lleol, Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol a Byrddau Rheoli Troseddwyr Integredig a chyrrff cyfatebol sy'n cael eu harwain gan iechyd.

5. SUT BYDDWN NI'N CYDWEITHIO

- 5.1 Byddwn yn gwreiddio **egwyddor datblygu cynaliadwy** Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a'r pum ffordd o weithio i sicrhau bod ein dull yn cael ei ategu gan:
- a) **Atal** - deall achosion gwreiddiol materion a, lle bo'n briodol, buddsoddi mewn ymyriadau effeithiol "i fyny'r ffrwd"
 - b) **Cydweithio** - cydweithio ag eraill i adnabod blaenoriaethau a rennir, a chyfleoedd ar gyfer cyllidebau a rennir ac adnoddau ar y cyd
 - c) **Ymwneud** - ymgysylltu â phartneriaid a'u cynnwys hwy a'r amryw o unigolion gaiff eu heffeithio gan ein penderfyniadau
 - d) **Integreiddio** - Ystyried sut y gall gwneud penderfyniadau effeithio ar bob un o'r nodau llesiant
 - e) **Ffocws hirdymor** - cydbwysio anghenion byrdymor a hirdymor, gan sicrhau cynaliadwyedd a diogelu ar gyfer y dyfodol.
- 5.2 Byddwn yn gwreiddio ymagwedd iechyd cyhoeddus (gweler Blwch 1.) i ddiffinio'r materion, adnabod risgiau a ffactorau amddiffynnol, a phrofi a gweithredu ymyriadau/strategaethau newydd i sicrhau bod yr heddlu a chyfiawnder troseddol yn rhan o'r ateb i ymyrraeth gynnar ac atal.
- 5.3 Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i gysoni a gwneud y gorau o synergedd rhwng yr Heddlu, Cyfiawnder Troseddol a Pholisi Iechyd a Lles.
- 5.4 Byddwn yn datblygu cyfres o ffrydiau gwaith sy'n adlewyrchu blaenoriaethau ar y cyd o safbwynt iechyd cyhoeddus a phlisma/cyfiawnder troseddol, gyda phwyslais ar **atal ac ymyrraeth gynnar, ACE a bregusrwydd**.
- 5.5 Byddwn yn ystyried y **cwrs bywyd**, gan gydnabod sut y gall profiadau cynnar mewn bywyd gael effaith sylweddol ar ddatblygiad niwrolegol

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd iechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

- a hormonaidd unigolyn, eu bregusrwydd a'r risg o gymryd rhan mewn troseddu ac effaith ar iechyd, rhagolygon cymdeithasol ac economaidd pan yn oedolion.
- 5.6 Byddwn yn defnyddio **ymchwil academiaidd** berthnasol a thystiolaeth sy'n cysylltu agendâu iechyd a diogelwch cymunedol, fel astudiaethau ACE Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn helpu i ysgogi a llywio blaenoriaethau lleol.
- 5.7 Byddwn yn sicrhau bod llinellau llywodraethu clir i fonitro'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt ac i ddarparu llywodraethu strategol cyffredinol.
- 5.8 Byddwn yn adnabod adnoddau priodol i ddatblygu darpariaeth meysydd gwaith ar y cyd, i hyrwyddo cydweithio ac osgoi dyblygu.
- 5.9 Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod gwasanaethau a gomisiynwyd sy'n berthnasol (e.e. gwasanaethau cam-drin domestig, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a gwasanaethau iechyd meddwl) wedi'u gosod ochr yn ochr mewn ffordd system-eang at ein diben cyffredin.
- 5.10 Byddwn yn ceisio adnabod arweinwyr strategol a enwir ar gyfer meysydd gwaith sydd o flaenoriaeth.
- 5.11 Byddwn yn ceisio dadansoddiad ar y cyd er mwyn meithrin cyd-ddealltwriaeth o sut y gallwn gyflawni gwell canlyniadau iechyd cyhoeddus a diogelwch cymunedol.
- 5.12 Byddwn yn edrych ar sut y gellir troi canlyniadau cadarnhaol a gwaith prosiect yn 'fusnes fel arfer' er mwyn sicrhau **darpariaeth gynaliadwy** a byddwn yn ymrwmo i gyfathrebu ein canfyddiadau i bartneriaid ehangach, i wneuthurwyr penderfyniadau eraill ac i'r cyhoedd.
- 5.13 Byddwn yn defnyddio dull sy'n **seiliedig ar gryfderau**, gan adnabod asedau y gall pob sefydliad eu cynnig i feysydd gwaith.

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Bocs 1

DIFFINIO YMAGWEDD IECHYD CYHOEDDUS

'Nod yr Ymagwedd lechyd Cyhoeddus yw darparu'r budd mwyaf i'r nifer mwyaf o bobl. Mae'n cynnwys proses pedwar cam sydd wedi'i gwreiddio mewn dull gwyddonol'

(Cynghrair Atal Trais, Sefydliad Iechyd y Byd, 2017).

Cam 1: Diffinio a Monitro'r Broblem - Casglu data yn systematig i bennu'r "pwy", "beth", "ble," "pryd," a "sut."

Cam 2: Adnabod risg a ffactorau amddiffynnol - defnyddio ymchwil i bennu achosion a chydberthynas materion, y ffactorau sy'n cynyddu neu'n lleihau risg, a'r ffactorau y gellid eu haddasu drwy ymyriadau.

Cam 3: Datblygu a phrofi strategaethau atal - darganfod beth sy'n gweithio trwy ddylunio, gweithredu a gwerthuso ymyriadau.

Cam 4: Gweithredu - monitro'r effaith ar ffactorau risg a chanlyniadau targed, a gwerthuso effeithiolrwydd cost.

6. MEYSYDD FFOCWS

Bydd y meysydd ffocws isod yn llywio datblygu rhaglen waith y cytunwyd arni. Sefydliar is-grwpiau unigol ac arweinwyr dynodedig o bob sefydliad sy'n aelod i gyflawni blaenoriaethau penodol, cytûn ac adnabod y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau.

6.1 Rhannu, dadansoddi a gwerthuso data

6.1.1 Byddwn yn defnyddio ymchwil a thystiolaeth gadarn i lywio blaenoriaethau a chamau gweithredu ar y cyd, gan ddefnyddio'r hyn a ddysgir yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

6.1.2 Byddwn yn datblygu sail dystiolaeth er mwyn helpu i feithrin dealltwriaeth o fanteision cost newid y system i gyd i sefydliadau a chymunedau, er enghraifft o ganlyniad i ailgyfeirio cyllidebau i "fyny'r ffrwd" i ddarparu ffocws ar gyfer gweithgarwch atal.

6.1.3 Gan weithio gyda phartneriaid academiaidd, byddwn yn sicrhau ein bod yn deall effeithiolrwydd ein gweithgareddau a sut y gallwn eu gwella,

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd iechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

gan adnabod cyfleoedd i gomisiynu ymchwil ar y cyd i olrhain a monitro cynnydd o fewn ein sefydliadau yn ôl mesurau/taclau cydnabyddedig.

- 6.1.4 Byddwn yn hyrwyddo diwylliant o rannu gwybodaeth, gan gydnabod trwy rannu a deall data y gallwn dargedu, gwerthuso ac, yn y pen draw, wella'r gwasanaethau y darparwn i'r cyhoedd.

6.2 Gweithio mewn Partneriaeth

- 6.2.1 Byddwn yn cydweithio â phartneriaid ehangach yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i fynd i'r afael â materion iechyd, lles a chyfiawnder troseddol ar y cyd, gan ymgysylltu'n rhagweithiol â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'r meysydd hynny a fyddai'n elwa o ffocws partneriaeth ehangach.

6.3 Atal ac Ymyrraeth Gynnar

- 6.3.1 Byddwn yn adnabod problemau cyffredin, gan ganolbwyntio yn arbennig ar gymunedau bregus, mynd i'r afael â'r diffyg ymyrraeth gynnar a gweithgarwch ataliol pan fo ACE yn amlwg a theuluoedd mewn perygl o ganlyniadau gwael. Ceisiwn gefnogi hyn trwy newid y system, gan ddefnyddio'r sail dystiolaeth i helpu sefydliadau i integreiddio comisiynu gwasanaethau yn well a helpu i symud dyraniad cyllidebau i ffocysu mwy ar atal.

6.4 Mynd i'r afael â Bregusrwydd gyda lens ACE

- 6.4.1 Byddwn yn datblygu gweithlu sy'n wybodus am ACE ar draws plismona a chyfiawnder troseddol yn ogystal ag iechyd, sy'n gallu ymateb yn fwy effeithiol i fregusrwydd, trwy wella ymwybyddiaeth, adnabod ac ymateb i blant ac oedolion sydd wedi profi trawma/adfyd.
- 6.4.2 Byddwn yn creu systemau i fynd i'r afael â bregusrwydd, gan gynnwys 'drws ffrynt' integredig 24/7 ar gyfer bregusrwydd sy'n cyfeirio, cefnogi a diogelu, sy'n cwmpasu gwasanaethau 'golau glas', lles ac iechyd.
- 6.4.3 Byddwn i gyd yn cymhwyso lens ACE i strategaethau, cynlluniau busnes a blaenoriaethau.

6.5 Cefnogi Pobl ac Adeiladu Gwytnwch Cymunedol

- 6.5.1 Byddwn yn datblygu dealltwriaeth o sut y gall nodweddion cymuned hyrwyddo cydlynid a gwytnwch.
- 6.5.2 Byddwn yn deall cymunedau sy'n fregus i bob math o drais yn well, gan gynnwys eithafiaeth dreisgar a throseddau cyfundrefnol difrifol neu

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

faterion blaenoriaeth eraill i lywio ymyriadau/strategaethau ar y cyd gyda'r nod o gryfhau gwytnwch a lleihau risg.

6.6 Lles Staff

- 6.6.1 Byddwn yn datblygu dealltwriaeth o'r graddau y mae'r model gweithlu presennol yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu er mwyn adeiladu gweithlu gyda'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r diwylliant sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau ar y cyd.
- 6.6.2 Byddwn yn helpu i greu gweithlu gwydn trwy gynyddu dealltwriaeth staff o'r asedau, y taclau ac adnoddau yn ein cymunedau.
- 6.6.3 Byddwn yn cydweithio trwy ailstrwythuro ac integreiddio systemau er mwyn cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar les staff.

7. RÔL ARWEINIOL

- 7.1 Bydd Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn penodi ac yn cyflogi unigolyn i arwain yr agenda a rennir (Pennaeth Iechyd Cyhoeddus a Phlismaona) a fydd yn adrodd i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan.
- 7.2 Mae'r swydd yn un uwch arweinydd allweddol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda chyfrifoldeb cyffredinol am arwain a rheoli'r cydweithio rhwng iechyd cyhoeddus, plismaona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru.
- 7.3 Bydd ffocws cryf ar Drais gan gynnwys Trais yn y Cartref ac agenda ACE.
- 7.4 Ochr yn ochr â hyb ACE, bydd deiliad y swydd yn gweithio i wella'r gwaith partneriaeth ehangach i roi tystiolaeth ACE ar waith.
- 7.5 Bydd deiliad y swydd yn ymgymryd â'r rôl Cyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer 'Rhaglen ACE yr Heddlu' a ariennir gan Gronfa Drawsnewid yr Heddlu.
- 7.6 Bydd deiliad y swydd hefyd yn adnabod adnoddau ac asedau newydd ac sy'n bodoli'n barod o blismaona, iechyd cyhoeddus a chyfiawnder troseddol y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael ag agenda gyffredin, gan atal a lleddfu ACE yn benodol.
- 7.7 Bydd deiliad y swydd hefyd yn arwain ymchwil a datblygiad yn y sector hwn ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol, gan gysylltu â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Coleg Plismaona, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM a sefydliadau perthnasol yn y trydydd sector.
- 7.8 Bydd deiliad y swydd hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo'r rhaglenni i weithredwyr i sicrhau'r holl adnoddau sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, a bod yn

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

bwynt cyswllt uwch rhwng staff gweithredol, bwrdd y rhaglen a staff rheolwyr prosiect.

- 7.9 Bydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldeb penodol dros ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach yn y rhaglen o newid ac am gydlynu ymarferion ymgysylltu/ymgyngori sylweddol ledled Cymru.

CONFIDENTIAL

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.


Cytunwyd ar gyfer ac ar ran:



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Arwyddwyd

Dyddiad



Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Gwent

Arwyddwyd

Dyddiad

**Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd
Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.**



Prif Gwnstabl De Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad



Prif Gwnstabl Gogledd Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad



Prif Gwnstabl Gwent

Arwyddwyd

Dyddiad



Prif Gwnstabl Dyfed-Powys

Arwyddwyd

Dyddiad

Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.



HM Prison &
Probation Service

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru

Arwyddwyd

Dyddiad



Prif Weithredwr Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad



HM Courts &
Tribunals Service

Cyfarwyddwr, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (Cymru)

Arwyddwyd

Dyddiad



Cyfarwyddwr Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad

**Gweithio gyda'n gilydd i adeiladu gwytnwch trwy gymryd ymagwedd lechyd
Cyhoeddus tuag at Blismona a Chyfiawnder Troseddol yng Nghymru.**



Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad

Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru

Arwyddwyd

Dyddiad

CONFIDENTIAL